

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan yr elusen genedlaethol dros chwarae



**Cymru: gwlad
chwarae-gyfeillgar?**



Cynnwys

Newyddion	3-5
Gwobrau Hawl i Chwarae	6-8
Sylw Cyffredinol	9
Clochdar dros Chwarae	10-11
IPA 2011	12-14
Datblygiad Proffesiynol	15
Aelodaeth	16

Cyhoeddir *Chwarae dros Gymru* gan Chwarae Cymru dair gwaith y flwyddyn. Cysylltwch â'r Golygydd yn: Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
Ebo: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926
ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchgrawn hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardstio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Argreffir y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd gan: Cheeky Monkey Creative
Argraffwyd gan: Zenith Media

Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk

Golygyddol

Rydym ar ben ein digon i'n henwebiad ar gyfer Gwobr Hawl i Chwarae yr International Play Association lwyddo, ar ran pob un ohonom sy'n gweithio i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar. Felly rydym yn amgáu copi o'r Wobr ar gyfer ein holl ddarlennwyr yng Nghymru – gobeithio eich bod yn falch o'ch hunain.

Derbyniodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, y Wobr ar ein rhan i gyd, a meddai:

'Pleser o'r mwyaf i mi oedd derbyn yr 'International Play Association Right to Play Award' ar ran Cymru. Mae'r wobwr hon ar gyfer pob person a mudiad sy'n gweithio i wneud ein gwlad yn fan gwych i blant chwarae.'

Hoffwn ddiolch i Chwarae Cymru am enwebu Cymru a diolch o galon i'r panel beirniadu. Mae'r ffaith mai dyma'r tro cyntaf i'r wobwr ryngwladol arobryn yma gael ei dyfarnu i wlad gyfan yn anrhydedd o'r mwyaf.

Yng Nghymru rydym wedi ymdrechu'n galed i weithio ar y cyd i greu cymdeithas sy'n parhau plant; sy'n parhau eu hawl i chwarae ac sy'n darparu cymunedau plant-gyfeillgar a chwarae-gyfoethog. Hoffwn ddiolch i'r holl fudiadau ac unigolion y mae eu hegni a'u hymroddiad wedi cyfrannu at sicrhau bod Cymru'n ennill y wobwr hon.

Mae ein Hawdurdodau Lleol a'n Cyngorau Tref a Chymuned yn darparu ystod eang o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd lleol. Mae nifer o fudiadau plant a chwarae, fel Chwarae Cymru, yn cynnal gwaith ymchwil ac yn darparu gwybodaeth a chynghor arbenigol a chyfleoedd rhwydweithio sy'n hysbysu a chefnogi ein amcanion ar gyfer chwarae. Mae gennym hefyd gymunedau, rhieni, teuluoedd a gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n gweithio ar y cyd i sicrhau bod ein plant yn cael llawer o gyfleoedd i chwarae.

Yn bwysicaf oll, byddwn yn gwrando ar ein plant a'n pobl ifainc sy'n llawn dychymyg ac ysbryd ac sy'n fwy na pharod i ddweud wrthym yr hyn y maent am ei gael o chwarae.'

Yn anffodus mae llawer ar ôl i'w wneud yma o ran sicrhau hawl plant i chwarae ac mae pethau'n dal i gael eu gwneud yng



Nghymru sy'n destun cywilydd. Er enghraifft, mae ymgyngoriad diweddar gan Gyngor Bwrdeistref yn gofyn am sylwadau ar ddeddf leol arfaethedig fyddai, mewn gwirionedd, yn gwahardd unrhyw un dros 12 mlwydd oed rhag defnyddio ardaloedd chwarae ac fyddai'n atal unrhyw un o unrhyw oedran rhag defnyddio esgidiau rholio neu sgleffryddau yn unrhyw le ar wahân i ardaloedd penodedig ...

Hysbyswyd Chwarae Cymru am hyn gan un o'n haelodau ac rydym ninnau'n ein tro wedi hysbysu asiantaethau allweddol ac aelodau eraill i wneud safiad yn erbyn y syniad yma. Mae chwarae a chymdeithasau'n golygu mwy na dim ond cyrraedd cyrchfan; mae'n ymwneud â'r siwrnai trwy ac o amgylch yr amgylchedd a'r gymuned. Mae angen inni newid yr amgylchedd trwy ein cymunedau i gyd er mwyn greu Cymru chwarae-gyfeillgar; ac mae hyn yn gofyn am gefnogi agweddau cadarnhaol tuag at chwarae plant a phobl ifainc.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth – mae'n anoddach o lawer ar ein pen ein hunain. Mae'n gyfnod adnewyddu aelodaeth Chwarae Cymru – helpwch ni i helpu plant sy'n chwarae.

Mike Greenaway,
Cyfarwyddwr Chwarae Cymru

Newyddion

Iechyd a Diogelwch 'Gwell asgwrn wedi ei dorri nag ysbryd wedi ei dorri'

Fel yr elusen genedlaethol sy'n hyrwyddo arfer da ym mhob darpariaeth chwarae, cred Chwarae Cymru nad yw Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (yn y modd y caiff ei defnyddio) yn addas i'r pwrpas yng nghyd-destun chwarae plant.

Rydym yn parhau i weithio â rhanddeiliaid allweddol yn Play Safety Forum* y DU i hybu dadansoddi risg-budd (gweler cyhoeddiad Play England – *Managing Risk in Play Provision: implementation guide*) ac i ddadlau ein hachos gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac eraill.

Yn hyn o beth, fe wnaethom fynychu cyfarfod yn ddiweddar ar lefel y DU â phartneriaid eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i helpu i hysbysu drafftio Datganiad Lefel Uchel gan yr HSE. Y gobaiith yw y bydd Datganiad Lefel Uchel yn helpu i egluro gweithrediad y Ddeddf a disgygliadau'r HSE yn ogystal â dileu chwedlau celwyddog.

*Cynhelir Play Safety Forum y DU gan Play England – dysgwch fwy ar www.playengland.org.uk

Rhestr yr HSE o'r '10 gwaharddiad iechyd a diogelwch mwyaf od'

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cyhoeddi rhestr o'r '10 gwaharddiad neu gyfyngiad iechyd a diogelwch mwyaf od a welwyd yn y cyfryngau' yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'r rhestr yn cynnwys: plant ddim yn cael cymryd rhan mewn ras sach yn niwrnod mabolgampau'r ysgol; gwahardd gemau pêl-droed ar fuarth yr ysgol – oni bai bod y bêl yn un sbwng; gwahardd hedfan barcutiaid ar draeth twristaidd poblogaidd; ac atal disgyblion rhag defnyddio barrau mwnci ar fuarth yr ysgol heb oruchwyliaeth.

Meddai'r HSE:

'Mae deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn bodoli i amddiffyn pobl rhag peryglon go iawn yn, neu sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Ond gall fod yn anodd i ddirnad hyn o edrych ar rai o'r straeon yr adroddir amdanynt.'

Mae'r rhestr lawn ar gael ar:

www.hse.gov.uk/news/bizarre-bans/index.htm

Her Rheolau Biwrocraidd

Mae gwefan newydd Her Rheolau Biwrocraidd yn cynnig cyfle i'r cyhoedd gyflwyno eu sylwadau ar reoliadau Iechyd a Diogelwch fel rhan o ymgyrch Llywodraeth glymbleidiol y DU dros fabwysiadu agwedd synnwyr cyffredin tuag at Iechyd a Diogelwch.

Mae'r wefan wedi ei dylunio i hybu trafodaeth agored ynghylch y modd y gellir cyflawni nodau'r rheoliadau presennol a hynny'n y modd lleiaf beichus posibl, ac i ganiatáu i bobl wneud sylwadau ar sut y gellid symleiddio rheoliadau'r HSE. Bydd yr HSE yn ystyried yr awgrymiadau fel rhan o ymrwymiad tymor hwy y Llywodraeth i ddiwygio rheoleiddio.

Ymwelwch â:

www.redtapechallenge.cabinetoffice.gov.uk

Hefyd, gweler adolygiad yr Arglwydd Young o Iechyd a Diogelwch – *Common Sense Common Safety*, sy'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r modd y caiff rheoliadau Iechyd a Diogelwch eu defnyddio a mynd i'r afael â'r diwylliant iawndal.

www.number10.gov.uk/wpcontent/uploads/402906_CommonSense_acc.pdf

Pam 'gwell asgwrn wedi ei dorri nag ysbryd wedi ei dorri'?

Mae'n neges ymgyrch digon dadleuol a godwyd o sylw a wnaed gan y Fonesig Allen o Hurtwood oedd yn ddadleuwraig gref a di-flewyn-ar-dafod dros blant. Fe weithiodd gydag UNESCO ac UNICEF ar brosiectau rhyngwladol. Arweiniodd ei hymgyrchu at basio Deddf Plant Prydain (1948) ac at sefydlu rhai o'r meysydd chwarae antur wedi eu staffio cyntaf ar gyfer plant anabl a phlant heb anabled.

Arweiniodd arsylwadau'r Fonesig Allen o blant yn chwarae iddi gredu bod gan blant ysfa ac angen i greu her ac ansicrwydd fel rhan o'u chwarae – cred sydd bellach yn cael ei ategu gan ymchwil gwyddonol. Gwyddai am fuddiannau cyfleoedd i greu a rheoli sefyllfaoedd llawn risg mewn cyd-destun

'digon diogel' i 'ysbryd' plant ac y dylid pwyso a mesur y budd posibl yma'n erbyn y tebygolrwydd o niwed difrifol. O ystyried ei gyrfa oes i ddiogelu plant, rydym yn gwbl sicr nad oedd hi (yn union fel nad ydym ninnau) yn eiriol y dylem fynd ati'n fwriadol neu'n esgeulus i achosi i blant dorri eu hesgryn!

Os y mentrwch chi ymuno â'r ymgyrch bydd gennym stoc newydd o grysau-t 'better a broken bone than a broken spirit' yn fuan. Os oes gennych ddiddordeb yn y rhain cysylltwch â Michelle (ar 029 2048 6050 neu trwy post@chwaraecymru.org.uk)

"better a broken
bone
than a broken
spirit"

Ymgyrch Plant Awyr Iach Sustrans

Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl byddai 80% o blant saith ac wyth mlwydd oed yn cerdded neu'n seiclo i'r ysgol ar eu pen eu hunain; bellach mae'r ffigwr yna wedi ei wrthdroi gan fod 80% o blant o'r un oedran yn cael eu hebrwng gan oedolyn, a hynny'n amlach fyth mewn car.

Golyga hyn lai o gyfleoedd i blant gynyddu eu hyder a'u sgiliau'n raddol fel y gallant symud yn annibynnol o amgylch eu cymunedau. Mae cerdded neu seiclo'r daith i'r ysgol ac adre' o'r ysgol yn ddelfrydol ar gyfer cymdeithasu â phlant a phobl ifainc eraill – gan ymgyfarwyddo â manau a phobl leol, a chael anturiau yn ystod y daith. Mae bod yn ddigon hyderus i deithio ar hyd ffyrdd a thrwy draffig yn allweddol i ddatblygiad annibyniaeth plant a phobl ifainc.

Mae gwaith ymchwil ym Mhrifysgol Bryste wedi canfod bod plant sy'n gallu teithio o amgylch heb oedolyn yn fwy heini'n gorfforol o'u cymharu â phlant sy'n cael eu goruchwyllo. Ond mae canlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan YouGov ar ran Sustrans yn dangos bod 25% o rieni'n cyfeirio at gyflymder traffig fel eu prif bryder pan fyddant yn meddwl am blant 10 mlwydd oed yn teithio o amgylch ar eu pen eu hunain, allai fod yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i chwarae â ffrindiau'r tu allan.

Mae ymgyrch newydd Sustrans – Plant Awyr Iach – yn anelu i wrthdroi'r tueddiad yma, trwy ryddhau plant o riniog y drws, a'u cael i deithio'n annibynnol ac mewn modd heini, ar feic ac ar droed.

Dywed Dr Angie Page, darlennydd mewn Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd



Cyhoeddus, Prifysgol Bryste: 'Mae ein gwaith ymchwil yn mesur sut y bydd pobl ifainc yn defnyddio'u cymdogaethau ar gyfer teithio o amgylch, a cheir tystiolaeth gref sy'n dangos y rôl pwysig y bydd strydoedd lleol yn ei chwarae ... Mae plant bum gwaith yn fwy heini y tu allan na'r tu mewn a (phan fyddant y tu allan) bydd plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ar y strydoedd. Bydd y plant hynny sy'n cerdded neu'n seiclo'n rheolaidd yn treulio mwy o amser y tu allan [24 y cant] o'i gymharu â'r rheini gaiff eu cludo mewn ceir [16 y cant]. Felly, mae angen inni sicrhau bod ein strydoedd yn fwy diogel er mwyn i blant allu teithio'n annibynnol.'

Mae Sustrans yn ymgyrchu dros fuddsoddi mewn llwybrau diogel i sicrhau mai cerdded a seiclo yw'r patrwm arferol ar gyfer teithiau lleol plant, yn enwedig i'r ysgol ac o'r ysgol. Mae Sustrans yn galw ar i'r cyfyngiad cyflymder gorfodol fod yn 20mya ble bynnag y mae pobl yn byw, yn siopa ac yn gweithio – newid a brofwyd sydd â photensial aruthrol i wneud strydoedd yn fwy diogel ac i leihau damweiniau'n cynnwys plant.

Mae Chwarae Cymru'n bartner yn yr ymgyrch yma – ym mis Medi fe gymerom ran yn un o raglenni Radio Wales ar destun plant yn cerdded i'r ysgol, ac o fis Hydref byddwn yn blogio'n rheolaidd ar wefan Plant Awyr Iach. Ymunwch â'r ddatl ac ychwanegu llais Cymreig, neu ychwanegwch eich enw i addewid Plant Awyr Iach ar www.sustrans.org.uk/freerangekids

entrepreneuraidd tuag at ariannu er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol tymor hir.

Ychwanegiad newydd, a lansiwyd ym mis Medi, yw Adran y Cyllidwyr sy'n cynnig cyfle i fudiadau cymunedol a gwirfoddol wella ansawdd eu ceisiadau i gyllidwyr a gwella'u cyfle i lwyddo.

Mae'r adnoddau yn Adran y Cyllidwyr yn anelu i leihau'r nifer o geisiadau cyllido anghymwys a gyflwynir. Adroddodd gwaith ymchwil y Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol (2010) bod dros un rhan o dair o'r holl geisiadau i gyrrff dyrannu grantiau i elusennau'n anghymwys – aeth dros 361,000 o geisiadau i'r bin!
www.sustainablefundingcymru.org.uk/?diablo.lang=cym

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

Yn y rhifyn diwethaf o *Chwarae dros Gymru* fe adroddom ar gynydd creu rheoliadau a chanllawiau fydd yn cyd-fynd â'r dyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Dyma sydd wedi digwydd ers hynny ...

Mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, wedi cytuno y gall swyddogion gyfeirio'r gwasanaethau cyfreithiol i ddechrau gweithio ar orchymyn cychwyn ac ystyried cynnwys rheoliadau drafft ar gyfer adran cyfleoedd chwarae'r Mesur.

Ers deddfu'r Mesur mae Llywodraeth Cymru wedi trafod â phlant; rhieni; mudiadau chwarae a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu barn am yr hyn y mae cyfleoedd chwarae digonol yn ei olygu, a'r hyn sydd angen ei gynnwys yn y dyletswyddau a osodir ar Awdurdodau Lleol i gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys yr amgylchedd ffisegol ac agweddau oedolion a phlant tuag at chwarae.

Mae hyn wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gynhyrchu'r dogfennau drafft sy'n cael eu datblygu ar draws gwahanol feysydd polisi a gyda rhanddeiliaid allanol ac fydd yn llunio sail i'r dyletswydd. Cynhelir ymgyngoriad ffrifol cyn gweithredu'r dyletswydd.

Am fwy o wybodaeth ynghylch y Mesur, ymwelwch â: http://wales.gov.uk/legislation/programme/previouslegislation/assemblymeasures/childrenandfamilies/?s_kip=1&lang=cy

Cyllid Cynaliadwy Cymru

Mae Porth Cyllid Trydydd Sector Cymru'n siop-un-stop ar gyfer cyfleoedd a chyngor cyllid. Mae'r porth cyllid, gaiff ei gynnal gan Gyllid Cynaliadwy Cymru y CGGC, yn cynnwys ystod o adnoddau ymchwil ar gyfer cyllid, ennill incwm, ble i fynd am gymorth ac archwilio cyfleoedd i amrywio eich cyfuniad ariannu.

Mae'r Porth Cyllid yn darparu mynediad i gronfa ddata chwiliadwy o gyfleoedd cyllid yn y DU, cyngor a chymorth ar godi arian ac awgrymiadau ar sut i amrywio cyllido. Mae'r wefan yn darparu cyngor ac arweiniad ymarferol i fudiadau sydd am ddatblygu agwedd

Rhwydweithio cymdeithasol

Nawr fe allwch ddilyn Chwarae Cymru ar **Twitter** a **Facebook**



twitter.com/ChwaraeCymru
twitter.com/PlayWales



on.fb.me/ChwaraeCymru
on.fb.me/PlayWales

'American Journal of Play'

Mae'r *American Journal of Play*, papur academaidd rhyngddisgyblaethol chwarterol a gyhoeddir gan The Strong Museum of Play, Efrog Newydd, ar gael bellach i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim. Mae'r *American Journal of Play* yn anelu i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am rôl chwarae mewn dysg a datblygiad dynol a'r modd y bydd chwarae'n taflu goleuni ar hanes diwylliannol.

Mae rhifyn Gwanwyn 2011 yn canolbwyntio ar thema chwarae rhydd. Mae erthyglau'n cynnwys *'Why parents should stop overprotecting kids and let them play'* (cyfweiliad gyda Lenore Skenazy a Hara Estroff Marano), a dwy erthygl gan y golygydd gwadd Peter Gray (Athro Ymchwil Seicoleg ym Mhrifysgol Boston): *'The special value of children's age mixed play'* a *'The decline of play and the rise of psychopathology in children and adults'*.

www.journalofplay.org

DIGWYDDIADAU

Play in Primary Schools: Head to Head conference

29 Tachwedd 2011, Bryste
www.playengland.org.uk

Eurochild – tackling child poverty through supporting and strengthening families

30 Tachwedd – 2 Rhagfyr 2011, Caerdydd
www.eurochild.org

10th Playwork Conference

6 – 7 Mawrth 2012
Winter Gardens, Eastbourne
www.playworkconferences.org.uk

International Council for Children's Play (ICCP) Tallinn 2012 Providing Play: Applications for policy and practice from research

18 – 19 Mehefin 2012, Tallinn, Estonia
www.iccp-play.org/conferencetallinn2012.htm

Child in the City 2012

26 – 28 Medi 2012
Zagreb, Croatia
www.childinthecity.com

Ariannu Plant Mewn Angen y BBC

Mae Rhaglen Grantiau Cyffredinol Plant Mewn Angen y BBC yn agored i fudiadau sy'n gweithio â phlant a phobl ifainc 18 oed ac iau. Dylai eich mudiad a'ch prosiect fod wedi ei leoli yn y DU ac mae'n rhaid iddo fod yn elusen neu'n fudiad di-elw arall.



Mae dwy ffrwd i'r rhaglen: grantiau bychain o hyd at £10,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd neu brif grantiau dros £10,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

Dyddiadau cau nesaf: 15 Hydref 2011 a 15 Ionawr 2012. www.bbc.co.uk/pudsey

Adroddiad Lles Plant UNICEF

Yn dilyn cyhoeddi *Report Card 7: An overview of child well-being in rich countries (2007)* UNICEF, wnaeth osod y DU ar waelod y gynghair* lles plant, fe gomisiynodd UNICEF y DU Ipsos MORI a'r Dr Agnes Nairn i archwilio rhai o'r rhesymau y tu ôl i'r ystadegau hyn trwy gymharu profiadau plant yn y DU â rhai plant yn Sbaen a Sweden.

Cyhoeddwyd canfyddiadau ac argymhellion y gwaith ymchwil i Lywodraeth y DU yn *Children's Well-being in the UK, Sweden and Spain: The Role of Inequality and Materialism*. O ran lles plant, dywedodd bron i bob un o'r 250 o blant wyth i 13 mlwydd oed a gyfwelwyd yn y dair gwlad bod 'amser gyda'r rheini y maent yn eu caru (ffrindiau, teulu a hyd yn oed anifeiliaid anwes); gweithgareddau chwaraeon neu greadigol; bod y tu allan a chael hwyl ... ac mai pobl ac nid pethau oedd yn eu gwneud yn hapus'.

Roedd y plant a gyfwelwyd yn 'mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r cartref a'r ysgol, ac roedd gweithgareddau awyr agored o bwys mawr iddynt'. Mae'r adroddiad yn nodi bod y toriadau i wasanaethau chwarae ac ieuencid yn y DU yn bryder penodol i blant a phobl ifainc o deuluoedd incwm is sydd 'yn fwy tebygol o lawer o ddiodef o ganlyniad i ostyngiad mewn gweithgareddau sy'n derbyn ariannu cyhoeddus, gan effeithio'n negyddol ar eu lles presennol yn ogystal â'u nodau a'u uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol'. Mae UNICEF yn tanlinellu tueddiad sy'n achos pryder: bod plant y DU yn treulio llai o amser yn cyfranogi mewn gweithgareddau awyr agored na'u cyfoedion yn Sweden a Sbaen.

Mae chwarae'r tu allan o fudd i hunan-ddibyniaeth plant, a'u gwynwch emosïynol a chorfforol, a bydd eu hymdeimlad o gynhwysiant a chyfranogaeth yn eu cymuned eu hunain yn aros yr un fath. Os y bydd plant

unicef

yn chwarae allan yn llai aml, byddant yn colli allan. Bydd plant yn dweud yn gyson bod cael digon o bethau i'w gwneud y tu allan yn gwbl allweddol i'w lles. Os ydym am roi hwb i les plant, dylai ffocws gwasanaethau fod ar atgyfnerthu cysylltiadau cymdeithasol ac ansawdd a hygyrchedd manau awyr agored, yn hytrach nag atgyfnerthu'r syniad nad yw rhieni'n treulio digon o amser gyda'u plant.

Ymysg argymhellion yr adroddiad mae UNICEF y DU 'yn galw ar Lywodraeth y DU i fynnu bod awdurdodau lleol yn asesu effaith penderfyniadau gwario cyhoeddus ar blant er mwyn sicrhau bod cyllidebau lleol yn caniatáu buddsoddi mewn cyfleusterau chwarae a gweithgareddau hamdden rhad ac am ddim ar gyfer plant a theuluoedd fel ei gilydd'.

Mae'r adroddiad llawn, crynodeb o'r adroddiad a fersiwn i blant ar gael i'w lawrlwytho ar:

www.unicef.org/Latest/News/Research-shows-UK-children-caught-in-materialistic-trap

*Mae'r gynghair yn cynnwys un ar hugain o wledydd datblygedig.

Helpwch i arbed

Anfonwch ebost inni ac fe anfonwn *Chwarae dros Gymru* yn syth i'ch blwch ebost – gallwch ein helpu i arbed adnoddau tra'n dal i dderbyn yr holl newyddion a gwybodaeth diweddaraf.

Hefyd, os ydych yn credu y dylai rhai o'ch cydweithwyr dderbyn *Chwarae dros Gymru*, gadewch inni wybod – helpwch ni i ledaenu'r gair am hawl plant i chwarae a darpariaeth chwarae o safon.
gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk

Cymru'n Ennill Gwobr Ryngwladol



Derbyniodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, Wobr Hawl i Chwarae yr International Play Association (IPA) pan agorodd 18^{ed} cynhadledd yr IPA yng Nghaerdydd ar 4 Gorffennaf 2011. Derbyniodd y Wobr ar ran yr holl bobl hynny yng Nghymru sy'n gweithio i wneud ein gwlad yn le gwell i blant yn chwarae.

Caiff y Wobr ei dyfarnu i brosiectau arloesol o amgylch y byd sy'n cefnogi hawl plant i chwarae – caiff ei chyflwyno bob tair blynedd yn y gynhadledd fyd-eang. Cymru yw'r wlad gyntaf erioed i dderbyn y Wobr Hawl i Chwarae.

Caiff y Wobr ei chyflwyno i gydnabod y cynnydd a wnaeth Llywodraeth Cymru wrth ddeddfu i gynnal hawliau plant – ac yn enwedig eu hawl i chwarae. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i fabwysiadu polisi chwarae cenedlaethol ac mae hyn wedi arloesi'r ffordd, neu gyfannu:

- Ariannu rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR ar gyfer sefydlu mudiadau ar draws Cymru i gefnogi mentrau lleol sy'n hyrwyddo a darparu ar gyfer cyfleoedd chwarae o safon i blant. Am y tro cyntaf mae gan Gymru fudiad chwarae ym mhob rhanbarth, o Wynedd i Went.
- Strategaeth addysg y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 – 7 mlwydd oed, fydd wedi ei chyflwyno'n llawn ar draws Cymru eleni, sy'n hyrwyddo cwricwlwm sy'n seiliedig ar chwarae ar gyfer ein plantos lleiaf.
- Deddfwriaeth arloesol sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r ddigonol ar gyfer plant yn chwarae. (Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010).

Chwarae Cymru gyflwynodd y cais am y Wobr Hawl i Chwarae ar ran yr holl bobl hynny sy'n gweithio i wneud Cymru'n fan chwarae-gyfeillgar. Felly, caiff y Wobr Hawl i Chwarae ei

chyflwyno hefyd i gydnabod gwaith pob un ar draws Cymru sy'n cefnogi'n weithredol angen a hawl pob plentyn a pherson ifanc i chwarae yn eu ffordd eu hunain.

Meddai Cyfarwyddwr Chwarae Cymru, Mike Greenaway, 'Mae plant yn wynebu mwy a mwy o rwystrau i geisio dod o hyd i fannau da ac amser i chwarae ond eto, byddant yn dweud wrthym mai cael amser, a lle a rhyddid i chwarae gyda'u ffrindiau yw un o agweddau pwysicaf eu bywyd. Mae'r budd o ran eu lles yn aruthrol, ond eto byddwn yn gweld llai a llai o blant yn chwarae allan yn ein cymunedau.'

'Yn anad dim, rydym am ddathlu ymdrechion grwpiau gwirfoddol lleol, gweithwyr awdurdodau lleol, rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a gwirfoddolwyr sy'n ymgyrchu dros fannau gwell i chwarae, sy'n ymladd i gadw gwasanaethau chwarae yn nannedd toriadau, sy'n rhedeg gwasanaethau chwarae neu glybiau chwarae ar ôl ysgol, neu'n sy'n syml ddigon yn sicrhau eu bod yn cydweithio â phlant pan fyddant yn cynllunio eu gwasanaeth. Mae'r wobwr yma gymaint ar gyfer y Fam-gu sy'n cefnogi'r plant a'r bobl ifanc sy'n chwarae ar y llain werdd y tu allan i'w thŷ, ac y mae i'r gwleidyddion sy'n ffurfio fframwaith cyfreithiol fydd, gobeithio, yn cynorthwyo ein plant a'n pobl ifanc i ateb eu hangen greddfoll i chwarae.'

Cyflwynwyd Gwobrau Hawl i Chwarae yr IPA i'r prosiectau canlynol hefyd:

Hazelwood Park Play Space – WAX Design (De Awstralia)
www.rmpl.com.au/hazelwood-park-playspace.html

Spice – Scottish Play in Creative English (São Paulo, Brasil)
<http://spicekids.com.br/>

The Treehouse Project – Islington Play Association (Llundain, Lloegr)
www.islingtonplay.org.uk

Promotion of Adventure Playground Activities Throughout Japan (Siapan)
Cysylltwch â: Noriko Kajiki
norikajiki@suma.kobe-wu.ac.jp

Make Space for Children: Let's create a playful world (Yr Iseldiroedd)
Cysylltwch â: Wilmar Vlaskamp
Wimlar@OBB-Ingenieurs.nl

Free2Play – Midlothian Association of Play (Midlothian, Yr Alban)
www.map-midlothian.org.uk

Advocating for a child's right to play: from the classroom into the community (New Jersey, UDA)
Cysylltwch â: Karen Hutchison
Hutchison@rowan.edu

Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar ar Facebook



Mae Chwarae Cymru wedi creu tudalen Facebook ar gyfer Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar er mwyn helpu i ffurfio rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer chwarae ar draws Cymru. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gefnogwr trwy 'hoffi'r' dudalen. Gallwch hefyd ei defnyddio i leisio eich barn, i gyhoeddi eich lluniau ac i hysbysebu gweithgareddau lleol, ac i gael ysbrydoliaeth. Cofiwch roi gwybod inni am yr hyn sy'n digwydd yn eich hardal chi sydd unai'n gwarchod neu'n atal hawl plant a phobl ifanc i chwarae.

Mae Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar yn ymgyrch Chwarae Cymru y gall cymunedau ei defnyddio i sefydlu eu ymgyrchoedd lleol eu hunain dros chwarae plant a bod yn rhan o ymgyrch genedlaethol ar yr un pryd.
<http://on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar>

Y diweddaraf am ddarpariaeth a datblygu chwarae

Dyma grynodeb byr o rywfaint o'r newyddion darpariaeth a datblygu chwarae o bob cwr o'r wlad.

PROSIECT CHWARAE CYMUNEDOL

Mae Play Right wedi ennill ariannu gan raglen Pawb a'i Le y Loteri FAWR i drosglwyddo prosiect chwarae cymunedol dros dair blynedd ym Mhenlan, Abertawe. Nod y prosiect yw datblygu cefnogaeth lleol o'r newydd i blant a phobl ifainc allu chwarae allan yn eu cymuned.

Bydd y prosiect yn cynnig pum sesiwn chwarae mynediad agored cynhwysol yr wythnos, yn cefnogi goruchwylwyr amser cinio mewn ysgolion lleol, yn rhedeg dau brosiect y flwyddyn i ymgysylltu â 'phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NEET) ac yn datblygu fforwm plant sy'n cyd-gysylltu â Phartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf. Caiff y prosiect ei gefnogi gan grŵp *Friends of Play in Penlan* – a sefydlwyd trwy'r prosiect hwn i eiriol dros hawl plant a phobl ifainc i chwarae.

DATBLYGU MANNAU CHWARAE NEWYDD

Mae Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir (Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chaerffili) wedi derbyn ariannu gan Grant Rhaglen Blaenau'r Cymoedd (dan awdurdod Gweinidog Tai, Adfywio a Threfadaeth Llywodraeth Cymru) ar ran tîm prosiect sy'n cynnwys Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir, Chwarae Plant (Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr) a'r 3 Counties Play Association (Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen).

Bydd y prosiect Chwarae a Mannau Chwaraeadwy yn datblygu dau fan

chwaraeadwy awyr agored arloesol ac unigryw i gyd-fynd â (neu fydd yn arwain at) fannau cymunedol sy'n bodoli eisoes. Bydd y mannau chwaraeadwy yma'n darparu lleoliad ble y gall plant o bob oed a gallu chwarae â'i gilydd a chymdeithasu â'u ffrindiau. Bydd yr ardaloedd chwarae'n cynnwys elfennau naturiol fydd hefyd yn cyfannu'r amgylchedd adeiledig.

Mae Chwarae Cymru, mewn cydweithrediad â PLAYLINK, wedi eu comisiynu i gydlynu'r prosiect ac i fod yn gyfrifol am elfennau ohono, yn benodol, cydlynu dylunio ac adeiladu'r mannau chwaraeadwy.

TROSGLWYDDO HYFFORDDIANT

Mae Chwarae Plant wedi derbyn ariannu gan raglen Pawb a'i Le y Loteri FAWR i drosglwyddo'r prosiect 'Ancwdd mewn Chwarae' yn Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Er mwyn trosglwyddo'r prosiect tair blynedd o hyd, mae Chwarae Plant wedi penodi Swyddog Datblygu Hyfforddiant Gwaith Chwarae.

Bydd y prosiect yn trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae Lefel 2 a Lefel 3, a chymwysterau Lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn datblygu rhaglen o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, sy'n cynnwys hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o chwarae, sgiliau gwaith chwarae, chwarae mewn ysgolion a chynhwysiant.

CYNNYDD MEWN ARIANNU

Ym mis Gorffennaf 2011 cytunodd Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc Torfaen y byddai Gwasanaeth Chwarae Torfaen yn

derbyn £100,000 y flwyddyn yn ychwanegol trwy Fenter Teuluoedd yn Gyntaf i ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol trwy'r sir. Bydd yr ariannu ychwanegol yma'n sicrhau parhad y canlynol: darparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifainc sydd ag anghenion cymhleth a heriol, a chymdeithasol ac emosïynol, gofalgwr ifainc, plant y gofelir amdanynt, cyfleoedd chwarae a drosglwyddir trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd chwarae rheolaidd a drosglwyddir i'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

ARDAL ARLOESI CAM 2 TEULUOEDD YN GYNTAF

Fel rhan o ardal arloesi cam 2 Teuluoedd yn Gyntaf Gogledd Orllewin Cymru mae'r tair sir sy'n bartneriaid (Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn) yn edrych ar amrywiol brosiectau sy'n treialu dulliau arloesol tuag at ddelio â thlodi plant.

Dyfarnwyd ariannu i Datblygu Chwarae Conwy, partneriaeth rhwng Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy ac Adran Ffyrdd Gweithgar a Chreadigol o Fyw yr Awdurdod Lleol, sydd wedi ei dargedu at ddarparu cyfleoedd chwarae mynediad agored ar gyfer plant anabl. Gwnaethpwyd defnydd da o'r ariannu eisoes i gefnogi cynhwysiant trwy ddarparu mwy o weithwyr chwarae ar gyfer cynlluniau chwarae haf y Cyngor yn ogystal â sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cyfres o ddeuddeg o ddigwyddiadau chwarae cymunedol dros yr haf.

Bydd y prosiect hefyd yn ariannu secondiad o chwe mis i gydweithio'n agos â'r Ganolfan Gwirfoddolwyr i recriwtio a hyfforddi mentoriaid gwirfoddol all gefnogi cynhwysiant o fewn darpariaeth chwarae a hamdden prif ffwrdd.

Ein Cyfnod Sylfaen

Cerddwch i mewn i Ysgol Feithrin Cogan ym Mro Morgannwg a bydd eich synhwyrâu i gyd yn dweud wrthyfch bod hwn yn fan da ar gyfer plant. Yn syth pan agorwch y drws ffyrnt bydd parabl hapus dwsinau o leisiau'n llifo i'ch clust. Mae pob ystafell wedi ei rhannu'n fannau bychain maint-plant ar gyfer chwarae; mae rhai plant yn brysur ar eu pen eu hunain ac mae eraill yn gwneud pethau gyda'i gilydd. 'Dyw hon ddim yn ardal gyfoethog; ceir cymysgedd eang o blant o wahanol gefndiroedd – y mae rhai ohonynt yn siarad Saesneg fel ail-iaith. Bydd oedolion a phlant yn siarad â'i gilydd fel cyd-aelodau o gymuned greadigol weithgar.

Yn y prynhawn cofiwch beidio â gadael eich bag yn swyddfa'r Pennaeth – oherwydd dyma'r

ystafell y bydd croeso i'r plant ddod iddi ar ôl cinio ac mae'n bosibl y caiff eich bag ei ddefnyddio fel un o'r 'props' ar gyfer chwarae 'swyddfa'. Y tu allan – beiciau dwy a thair olwyn a sgwteri, tai chwarae, gerddi, chwarae bychain (heddiw efallai y bydd deinosoriaid bychain yn y pwll tywod) a chwarae â dŵr, a safle adeiladu gyda pheiriannau cymysgu sment a 'brics' bychain. Efallai y bydd athro neu athrawes ar y dorlan laswelltog, yn angori pen cul hwyl cwch gafodd ei lloffa o'r marina leol. Heddiw, mae'r hwyl yn cael ei defnyddio fel llithren dros dro (mae'n bosibl y bydd yn rhywbeth arall yfory) ac mae'r plant yn llithro a rholio i lawr i'r maes chwarae. Mae Ysgol Goedwig fechan wedi ei chreu mewn cornel fwy gwyllt o dir yr ysgol – gyda chylch o blocion pren o amgylch pwll tân bychain.

Roedd Ysgol Feithrin Cogan yn un o'r mannau y cawsom y pleser o wahodd cyfranogwyr rhyngwladol i ymweld â hi fel rhan o Gynhadledd Fyd-eang 2011 yr International Play Association. Hoffem ddiolch i'r staff a'r plant am fod mor groesawus.

Yn ei adroddiad ym mis Medi 2011 nododd ESTYN, Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:

Mae effaith y Cyfnod Sylfaen ar les plant wedi bod yn gadarnhaol ac, yn y mwyafrif o ysgolion, mae plant pump i chwe mlwydd oedd yn cyflawni'n dda. Mae lles nifer o blant yn elwa o weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Yn gyffredinol, mae'r buddiannau'n amlwg yn y cynnydd yn lefel ysgogiad a phleser y plant wrth ddisgu. Mae dulliau dysgu gweithredol a'r defnydd o'r amgylchedd dysgu awyr agored yn helpu bechgyn i ymgysylltu mwy â'u dysgu.

Arwyddion y gall plant Caerffili chwarae'r tu allan

Mewn llawer o gymunedau caiff plant eu hwynebu gan arwyddion 'dim chwarae pêl' neu arwyddion swyddogol eraill yn eu gwahardd rhag chwarae, ond ym mwrdeistref sirol Caerffili mae arwyddion newydd yn cael eu codi i annog plant a phobl ifainc i chwarae'r tu allan.

Mae ail gyfnod codi'r arwyddion 'Mae croeso i chi chwarae yma' wedi ei gwblhau mewn deg ardal a ddedholwyd gan blant Fforwm Iau Caerffili. Mae'r Fforwm yn fecanwaith parhaus i blant fod yn rhan o'r broses llunio penderfyniadau ar lefel sirol ac mae'n cynnwys 132 o blant saith i un ar ddeg mlwydd oed o 59 ysgol gynradd o bob cwr o'r bwrdeistref sirol.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau lleol gyda'r plant a Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf lleol ynghylch ble fyddai'n leoliadau mwyaf buddiol i osod yr arwyddion hyn ar gyfer y gymuned gyfan. Ar gyfer y casgliad diweddaraf o arwyddion fe wnaeth y Fforwm Iau helpu i ysgrifennu cais am arian a chynnal cystadleuaeth i'r plant ddylunio'r arwyddion.

'Mae'r arwyddion 'Mae croeso i chi chwarae yma' wedi eu dylunio i ddangos i'r plant y manau penodol ble y gallant chwarae'n ddiogel, yn ogystal ag i'w gwneud hi'n gwbl eglur i drigolion bod hawl gan blant chwarae yn eu cymunedau, ac o'r herwydd leihau canfyddiadau ynghylch

ymddygiad 'gwrth-gymdeithasol', medd y Cynghorydd Phil Bevan, aelod cabinet cyngor Caerffili dros addysg a hamdden. 'Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i hyrwyddo chwarae fel modd i blant gadw'n heini ac i gymdeithasu o fewn eu cymunedau'.

Mae'r prosiect diweddaraf hwn yn dilyn codi wyth arwydd yn 2010 trwy Dîm Chwarae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO). Arianwyd y ddau brosiect gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifainc Caerffili ac maent yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau penodedig y Strategaeth Chwarae leol.

Prosiect Ceidwaid Chwarae

Gareth Parry, cydlynnydd y Prosiect Ceidwaid Chwarae, sy'n sôn wrthym am eu cynllun newydd yng Ngogledd Orllewin Cymru

Mae ein Prosiect Ceidwaid Chwarae'n gweithio ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy – yn cynorthwyo plant i chwarae'r tu allan yn rhydd, yn weithredol ac yn ddiogel. Bydd Ceidwaid Chwarae hefyd yn darparu cyfleoedd ble y gall plant greu risgiau a heriau wrth iddynt chwarae.

Mae'r math yma o brosiect yn gwbl newydd i'r ardal yma o Gymru – byddwn yn darparu gwasanaeth dwyieithog, rhad ac am ddim ble fo gweithwyr chwarae cymwysedig a phrofiadol yn gweithio mewn parciau a manau agored mewn cymunedau lleol, gan gefnogi ac annog plant i chwarae'n rhydd y tu allan ac i ad-ennill manau chwarae. Cawn ein hariannu trwy raglen Chwarae Plant y Loteri FAWR a'n rheoli gan Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru (NWWPF). Bydd ein timau o geidwaid chwarae'n gweithio trwy'r flwyddyn gan ymweld â chymuned am hyd at chwe mis, yn cynnwys gwyliau'r ysgol.

Mae gwerthuso effaith y prosiect ar agweddau'r gymuned tuag at chwarae yn allweddol wrth asesu etifeddiaeth y prosiect. Bydd y timau Ceidwaid Chwarae, gyda chefnogaeth y cydlynnydd prosiect, yn gweithio gyda staff chwarae a staff datblygu cymunedol lleol fel y gallant, os yw'r gymuned yn fodlon, gynnal y ddarpariaeth y tu hwnt i fywyd ein prosiect. Mae gwirfoddolwyr yn allweddol a byddant yn derbyn hyfforddiant gwaith chwarae er mwyn sicrhau cynaladwyedd ac etifeddiaeth y prosiect.

Fel rhan o'n gwaith, byddwn yn darparu adnoddau'n cynnwys deunyddiau sgrap ac eildro, pren, offer, rhaffau, dillad, teganau, tarpolin, pebyll a llochesi, ac yn annog defnyddio'r amgylchedd a'r elfennau naturiol.



© Prosiect Ceidwaid Chwarae

Hyderwn y bydd ein gwaith yn helpu i gynyddu hyder ac ymdeimlad plant a phobl ifainc o berchenogaeth o fannau cyhoeddus – un o'r elfennau allweddol yw eu bod yn llunio perthnasau ag eraill, yn cynnwys oedolion yn eu cymuned.

Bu'r ymateb gan blant yn gadarnhaol dros ben. Dyma beth oedd ganddynt i'w ddweud:

'Mae o'n cwl ... oherwydd mi fydda' i'n cael chwarae gyda berfa a theiars a phopeth!'

'Rydwi i eisiau ceidwaid chwarae bob diwrnod!'

'Os fyddai dim ceidwaid chwarae mi fydden ni'n 'bored' yn eistedd adre'n gwyllo'r telli.'

Mae rhieni wedi ymateb yn gadarnhaol i'r prosiect ac mae llawer wedi sôn iddo achosi iddynt hel atgofion am eu profiadau chwarae eu hunain fel plant.

www.forwmchwaraegoc.org.uk

Diweddariad – Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31

Valerie Fronczek, Is-lywydd yr IPA sy'n dweud wrthym beth fydd nesaf:

Bydd darllenwyr *Chwarae dros Gymru'n* gwybod i gais yr International Play Association (IPA) am Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 gael ei gymeradwyo'n swyddogol gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mis Chwefror 2011.

Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol a fabwysiedir gan y Pwyllgor sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen o'r Confensiwn sy'n ymddangos fel ei fod angen dehongliad neu bwyslais pellach. Wedi ei gwblhau caiff ei anfon at y 192 o wledydd (Pleidiau Wladwriaethau) sydd wedi arwyddo Confensiwn y CU.

Gwahoddwyd yr IPA i chwarae rôl arweiniol yn nhrefniadaeth datblygu'r Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31. Bydd y datganiad ugain tudalen o hyd yn cyfeirio at bob elfen o'r Erthygl – gorffwys a hamdden, chwarae ac adloniant, diwylliant a'r celfyddydau. Mae tueddiad i Erthygl 31 gael ei hesgeuluso ac mae'r IPA yn gobeithio ei gosod mewn safle mwy canolog yng nghyd-destun ehangach Confensiwn y CU, gan arddangos y modd y mae'r hawl i chwarae'n annatod o'r Erthyglau eraill (fel rhai ar gyfranogaeth, iechyd neu gynhwysiant) ac hefyd i bwysleisio rôl chwarae a ddewisir o wirfodd.


Bydd Grŵp Ffocws y CU yn cynnwys aelodau o Gorea, Gweriniaeth Arabaidd Syria, Sawdi-Arabia, Gwlad Thai ac Uganda. Bydd Lothar Krappman (Yr Almaen), cyn-aelod o Bwyllgor y CU a chefnogwr brwd y Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31, yn rhan o'r datblygiadau hefyd – cawsom gyfle i gwrdd ag e' yng nghynhadledd fyd-eang yr IPA yng Nghymru.

Mae datblygu strwythur i alluogi derbyn cyfraniadau gan ystod eang o feysydd yn ogystal â safbwyntiau o bob cwr o'r byd yn hynod o bwysig. Sefydlir pwyllgor gwaith i gydweithio'n agos â Grŵp Ffocws y CU.

Cadwch lan â newyddion am y Sylw Cyffredinol yn ystod 2012 ar www.ipaworld.org

Cynrychiolir Chwarae Cymru ar Fwrdd yr IPA a bwrdd cangen Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o'r IPA. Rydym yn gwneud hyn gan ein bod yn credu y gall diffiniad eglur o Erthygl 31, o bosibl, atgyfnerthu safbwynt y rheini sy'n gweithio ar ran plant sy'n chwarae yng Nghymru – a thrwy hynny fod o fudd i'n plant i gyd.

Ymunwch â changen Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o'r International Play Association a chynnig eich cefnogaeth. Dysgwch fwy ar www.ipa-ewni.org.uk



Clochdar dros Chwarae

Daeth pum cant o blant ysgol 3 – 11 mlwydd oed a 500 o gyfranogwyr rhyngwladol o Gynhadledd Fyd-eang yr International Play Association yn Neuadd y Ddinas ynghyd yng Ngerddi Sophia ar 6 Gorffennaf i glochdar a chadw sŵn mawr i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch hawl ac angen plant i chwarae.

Gadawodd gorymdaith o gyfranogwyr (o bob cyfandir ar y Ddaear, ar wahân i Antarctica) Neuadd y Ddinas Caerdydd a dilyn ystudfachwyr (*stilt walkers*) a Ddaer-bêl anferth i Erddi Sophia – gan chwythu chwibanau a chwifio baneri.

Mae chwarae'n apelio at bob plentyn – ac mae chwarae bywiog rheolaidd yn apelio at blant sy'n hoff o ymarfer corff neu beidio – gan gynyddu ffitrwydd.

Yn y cyfamser roedd prosiectau chwarae a deithiodd o bob cwr o Gymru (a chwypwl o Loegr) wedi ymgasglu yng Ngerddi Sophia gyda 500 o blant ysgol gwahoddedig. Roeddent yn cynnig pob math o weithgareddau chwarae – o chwarae â dŵr i wrthrychau symudol anferth yn llawn aer, o bentref o guddfannau cardbord i babell yn llawn telynu bychain Cymreig, o greu potiau clai i adeiladu offerynnau cerdd o sbwriel. Roedd rhai plant yn rhoi tro ar 'slack lining' ar raff bungee wedi ei chlymu rhwng dwy goeden. Perfformiodd Ysgol Baden Powell gân newydd a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Wasanaethau Cerdd Caerdydd.



**Pwy oedd yno?**

Plant (pob un yn VIP ynddo'i hun – gyda breichled VIP!) o ysgolion yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf, Arglwydd Faer Caerdydd, Criwr Tref Penarth, Comisiynydd Plant Cymru, Llywydd yr International Play Association a chynrychiolydd o Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cenhedloedd Unedig.

Beth yw'r neges?

Mae chwarae'n hanfodol ac yn bwysig i blant. Mae'n rhaid inni beidio â'i ddiystyru.

Mae chwarae'n cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles pob plentyn – profwyd ei fod yn cyfoethogi eu gallu i oroesi a ffynnu yn y byd cyfoes.

Mae chwarae'n apelio at bob plentyn – ac mae chwarae bywiog rheolaidd yn apelio at blant sy'n hoff o ymarfer corff neu beidio – gan gynyddu ffitrwydd.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc o amgylch y byd hawl i gael amser i chwarae yn ei ffordd ei hun, mewn mannau digon diogel, gyda'u ffrindiau. Mae'r hawl yma'n wir am bob plentyn, os ydynt yn anabl neu beidio, o grwpiau lleiafrifol neu ar y cyrion neu o boblogaethau sylweddol, waeth pa grefydd neu gefndir economaidd y maent yn perthyn iddo.

Yn y DU, mae'r rhwystrau i chwarae allan yn tyfu'n fwy bob dydd – maent yn cynnwys nid yn unig ddiffyg gofod da yn agos at gartrefi plant, a dylanwad y car a diwylliant 'iechyd a diogelwch', ond hefyd, yn allweddol ddigon, ein hagweddau tuag at blant yn chwarae.

Mae angen i bob un ohonom weithio i wneud ble bynnag yr ydym yn byw yn fan mwy cyfeillgar ar gyfer plant sy'n chwarae, ac i'w hannog a'u cefnogi. Fydd chwarae ddim jesd yn digwydd. Mae clochdar dros chwarae yn ddim ond un o'r ffyrdd o wneud i'n byd newid er gwell.



Mae chwarae'n cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles pob plentyn – profwyd ei fod yn cyfoethogi eu gallu i oroesi a ffynnu yn y byd cyfoes.



Barn o bellafoedd byd

Fe ofynom i dri o'r cyfranogwr a fynychodd gynhadledd 2011 yr IPA beth oedd dod i Gymru'n ei olygu iddyn nhw...

Tovah P. Klein

Cefais fy ysbrydoli gan gannoedd o bobl sydd wedi ymroddi'n llwyr i wneud chwarae'n ganolbwynt bywydau plant ... Sut allwn i beidio? Ar hap, cyflwynais cynnig i gyfrannu i gynhadledd 50^{ed} Pen-blwydd yr International Play Association yng Nghaerdydd, Cymru. A chefais fy nerbyn. 'Cynhadledd yn benodol ar gyfer chwarae? Am syniad gwychl! Meddyliais. Felly i fwrdd â fi, gyda fy mhentyn hynaf (oedd newydd gyrraedd ei ardegau). Cyrhaeddais adref wedi fy adfywio ac yn llawn ysbrydoliaeth.

Pam?

Bron i 500 o bobl gyda'i gilydd sy'n credu bod chwarae'n allweddol ar gyfer cynnal plentyndod iach a dyfodol dynoliaeth. Dim sôn os 'Yw chwarae'n beth da?', dim angen profi bod chwarae'n helpu plant. Dim trafod ynghylch 'a ddylai plant chwarae?' Y man cychwyn cytûn oedd bod rhaid i blant chwarae a bod ymosodiadau parhaus ar gyfleoedd i chwarae'n niweidiol mewn ffyrdd difrifol iawn. Roedd yr hyn y bydd plant yn ei gollu trwy beidio â gallu chwarae'n niweidio cymdeithasau cyfan – boed o ganlyniad i ddiffyg manau diogel i chwarae, amser i chwarae neu ddbrisio chwarae.

Ysbrydoliaeth arall – clywed ystod eang o siaradwyr, mewn ffyrdd bach a mawr, yn nodi bod eu gwaith (mewn bioleg, addysgu, pensaerniaeth, rheoli risg, seicoleg) yn mynd yn groes i'r graen ... Tydw i ddim ar fy mhen fy hun. Ond yma, roeddem am glywed yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud; roeddem i gyd yn gwybod gwerth y gwaith ac roeddem yn awyddus i ddysgu beth oeddent yn ei wybod.

Ymweld – ag ysgol ble y bydd plant yn cynnu tân ac yn chwarae yn y glaw, ble maent mewn cyswllt â natur, waeth beth fo'r tywydd; plant dan oedran ysgol fyddai'n naddu ffyn ac yn cynnu tân i rostio malws melys wrtho. Fyddai hyn fyth yn cael ei dderbyn mewn ysgolion yn America. Fe wnaeth fy atgoffa o'r pleser gaiff fy mhiant fy hun o wersylla yng nghrombil y goedwig. Mae casglu coed tân, adeiladu'r tân ac yna dal i roi coed arno'n uchafbwyntiau

gweryslla. Yma, roedd plant bach trefol o bob cefndir yn profi'r pleser yma tra'n dysgu i barchu a gofalu am natur a'i elfennau.

Gŵyl Clochdar Dros Chwarae – yn llawn heriau, ac er eu bod wedi eu goruchwylio, roedd y plant yn dilyn eu trywydd eu hunain; ble roedd plant ac oedolion yn chwarae; yn mentro; ac yn concro heriau o'u dewis eu hunain ar raffau a siglenni cartref ac yn y mwd. Fe wnes i hyd yn oed lwyddo i gymryd ychydig gamau ar y 'slack-line' elastig! Fe wnaeth adfywio fy ffydd, pryd y bydd pobl yn dod ynghyd sy'n ymroddedig i chwarae, yn ymroddedig i blant, bod nerth yn ein niferoedd ac yn ein syniadau. Bod rhaid inni barhau i wthio ymlaen dros yr hyn y gwyddom, yn ein calonnau a'n meddyliau, y mae plant ei angen gymaint.

Ac yn olaf – cefais fy ysbrydoli gan archwilio bob hen arcêd yng Nghaerdydd, yn cynnwys gweithdy'r gwneuthurwr feiolin, gyda fy mab.

Bythgofiadwy.

Tovah P. Klein, Ph.D., Cyfarwyddwraig, Barnard Center for Toddler Development; Athro Seicoleg, Barnard College, Efrog Newydd, NY.

Brian Ashley

Dyma un o'r cynadleddau IPA gorau imi ei mynychu. Fel aelod gwreiddiol o'r IPA rwyf wastad eisiau i gynadleddau arddangos bod yr IPA wedi ei sefydlu i ddatblygu gwaith chwarae gweithredol ac i gefnogi gweithwyr chwarae. Bu cynhadledd Caerdydd yn rhagorol wrth gyflawni'r nod yma – roedd wedi ei lleoli yng nghanol rhwydwaith gweithredol o waith chwarae ymarferol oedd eisoes yn symbylu gweithgarwch chwarae ffyniannus ar lawr gwlad yng Nghymru.

Lleolwyd y gynhadledd gyfan yn adeilad hardd a hanesyddol Neuadd y Ddinas, a thrwy hynny arddangoswyd bod cefnogi chwarae'n ymroddiad gan y gymuned gyfan. Cyflwynodd Prif Weinidog Cymru esiamplau o'r modd y bydd y llywodraeth yn gweithio i gefnogi plant sy'n chwarae, a chyfeiriodd Cadeirydd Chwarae Cymru at ei gwreiddiau ym maes gwaith chwarae wedi iddi hyfforddi

Dyma un o'r cynadleddau IPA gorau imi ei mynychu. Fel aelod gwreiddiol o'r IPA rwyf wastad eisiau i gynadleddau arddangos bod yr IPA wedi ei sefydlu i ddatblygu gwaith chwarae gweithredol ac i gefnogi gweithwyr chwarae.

fel gweithwraig ieuencid a chymunedol. Golygodd hyn nad oedd y gynhadledd yma'n un gyffredin arall am blant a chwarae fel testun eiriolaeth neu astudiaeth, ond yn hytrach fel sail ar gyfer datblygiad cymunedol.

Un o fanteision cynadleddau'r IPA yw gallu cwrdd â hen gyfeillion – sy'n creu awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar. O'r cychwyn cyntaf, darparwyd awyrgylch cadarnhaol a chyddestun cefnogol gan y llu o weithwyr Cymreig lleol a'u cyfraniad. O ddarllen yr amlinelliadau a gyflwynwyd a fy mhrofiad personol o'r rhaglen, llwyddwyd i greu cyfuniad o syniadau newydd cyffrous a disgrifiadau o arfer cadarn.

Bu Brian Ashley yn ddarlithydd gwaith ieuencid a chymunedol ym Mhrifysgol Abertawe a bellach mae'n byw yn Sweden. Mae'n aelod o'r International Play Association ers ei sefydlu ym 1961.

Theresa Lu

Yn sicr roedd y gynhadledd yn atsain y gred yn hawl y plentyn i chwarae, a droswyd yn eiriolaeth trwy rannu gwybodaeth, arbenigedd, syniadau, arfer, adnoddau, ac yn y cyflwyniadau gan gyfranogwyr o bob cwr o'r byd. Roedd Gŵyl Clochdar dros Chwarae'n ddiwyddiad trawiadol a chofiadwy, wrth i blant ac oedolion ymuno â'i gilydd i archwilio, arbrofi, a chreu profiadau chwarae deniadol. Bu ymweliadau ag Ysgol Feithrin Cogan a Chanolfan Adnoddau Chwarae Re-create yn brofiadau cyd-destunol a roddodd gyfle i'r cyfranogwyr gyd-drafod a rhannu â'i gilydd.

Fe ddysgais lawer – ac mae'r dysg yma bellach yn y broses o gael ei drawsnewid yn arfer, a gwnes lawer o ffrindiau newydd o bob cwr o'r byd. Fe wnaeth y gynhadledd gadarnhau cryfder chwarae, a dylid llongyfarch y trefnwyr a'r staff cefnogol am lwyddiant y profiad chwareus gwych yma.

Theresa Lu, Pennaeth Rhaglen: Addysg Plentyndod Cynnar, Ysgol Datblygiad Dynol a Gwasanaethau Cymdeithasol, Prifysgol SIM, Singapore

Rhoddion y Gynhadledd

Roedd Lowri Brown (16) a Mali Esson (9) ymysg ugain o blant a phobl ifainc wnaeth helpu i sicrhau bod cynhadledd yr IPA yn rhedeg yn llyfn. Yma mae Lowri'n sôn am ei phrofiad:

Roedd casgliad o roddion wedi eu gosod ar ochr y llwyfan yn Neuadd y Ddinas. Daliodd tegeirianau gwyn a phorffor llachar fy llygad wrth imi gerdded i'r Neuadd. Gwrandewais i a Mali ar Lywydd yr IPA'n croesawu pawb a chyflwyno Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru. Fe wrandawodd pawb yn astud arno'n derbyn y Wobr Hawl i Chwarae ar ran Cymru ac wrth i'w araith ddirwyn i ben fe wnaeth Mali a minnau ymbaratoi i fynd i'r llwyfan. Ein rhodd i Carwyn Jones oedd portread ohono wedi ei greu gan gartwneydd Chwarae Cymru. Fe wnaethom ddiolch iddo am ddod i'r gynhadledd ac roedd yn bles iawn i dderbyn ei rodd. Roeddwn yn nerfus iawn wrth gychwyn gwneud y gwaith yma, ond roedd pawb a dderbyniodd rodd ar y llwyfan yn ddiolchgar dros ben.

Fe gafodd gwirfoddolwyr ifainc eraill yr un cyfle gwych â Mali a fi, a phan oeddwn yn

cerdded o amgylch y gynhadledd fe wnaeth amryw o'r cyfranogwr fy adnabod a diolch imi am ein gwaith ar y llwyfan ac y tu ôl i'r llenni. Fe wnes i fwynhau fy rôl a chael cyfle i eistedd a gwrandao ar yr hyn oedd gan y siaradwyr i'w ddweud. Roedd yn waith

bodhaus – roedd gan bob siaradwr rywbeth gwahanol a diddorol i'w ddweud. Rwy'n falch imi wirfoddoli gyda Chwarae Cymru yn y gynhadledd oherwydd fe gefais gwrrd â llawer o bobl anhygoel, a chefais amser wrth fy modd.



Adroddiad cynhadledd Joe

Roedd Joe Rowley (16) yn newyddiadurwr ifanc yng nghynhadledd yr IPA. Dyma ei erthygl.

Yr wythnos yma mae Caerdydd yn croesawu cynhadledd fyd-eang hanner canfed pen-blwydd yr International Play Association. Bydd y gynhadledd hon, gaiff ei chynnal bob tair blynedd, yn croesawu cyfranogwyr o bob cwr o'r byd i Gaerdydd i rannu eu syniadau a'u gwaith ym maes chwarae. Siaradodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, yn y seremoni agoriadol ble y dywedodd ei fod yn 'hyderus y bydd plant a phobl ifainc yn ein gwledydd i gyd yn elwa ac yn cael mwy o gyfleoedd i chwarae o ganlyniad i'r trafodaethau a'r rhannu syniadau wnaiff ddigwydd yn ystod yr wythnos'.

Yn ystod araith ble y cyfeiriodd nifer o weithiau at waith Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf er hybu chwarae yng Nghymru, pwysleisiodd y Prif Weinidog 'gred gref Cymru mewn hawliau plant'. Y gred unol yma wnaeth ennill 6^{ed} Gwobr Teirblynyddol Hawl i Chwarae yr IPA i Gymru. Crewyd y wobwr hon i gydnabod prosiectau chwarae sy'n gweithredu Erthygl 31 o Gonfensiwn y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Enillwyd y wobwr gan 'Cymru – Gwlad Chwarae-gyfeillgar' a dyma'r tro cyntaf i wlad gyfan ennill y wobwr. Dywedodd Prif Weinidog Cymru bod y wobwr yma'n arwydd gwych o'r datblygiadau rhyfeddol a wnaeth Chwarae Cymru ers ei sefydlu ym 1999. Mewn dim ond 12 mlynedd mae Chwarae Cymru wedi chwarae rhan allweddol wrth ddraffio'r Polisi Chwarae cenedlaethol yn 2002 a Chynllun Cyflawni Polisi Chwarae Cynulliad Cymru yn 2006. Bellach mae Chwarae Cymru wedi tyfu i fod yn un o fudiadau chwarae blaenaf y DU.

Er bod hyn yn gyflawniad gwych gan Gymru fel gwlad, teimla staff Chwarae Cymru nad dyma'r amser i laesu dwylo. Maent yn gobeithio y caiff y Wobr Hawl i Chwarae ei defnyddio fel meincnod i helpu chwarae yng Nghymru i ddatblygu hyd yn oed ymhellach. Do, fe enillodd Cymru'r wobwr, a hynny'n gwbl haeddiannol, ond mae'n bwysig inni gofio nad yw hyn yn golygu bod statws chwarae yng Nghymru'n berffaith. Mae llawer o waith yn dal i gael ei wneud er mwyn parhau i wella

cyfleoedd, amgylcheddau ac agweddau tuag at chwarae ac mae rhai ardaloedd yng Nghymru sydd wir angen cymorth.

Yn ystod ei gyflwyniad yn y seremoni agoriadol fe wnaeth Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, adleisio'r safbwyntiau yma mewn araith llawn cymhelliant wnaeth arddangos yn glir ei farn gref ynghylch chwarae plant. Cyfeiriodd y Comisiynydd Plant at rai o'i gyfarfodydd diweddar â phlant, a soniodd bod llawer yn gofyn iddo 'yw hi'n anghyfreithlon i chwarae pêl-droed ar y stryd?' sy'n dangos inni bod gwaith ar ôl i'w wneud a chynnydd i'w sicrhau yng Nghymru. Ail-adroddodd hefyd y ffaith bod y sector chwarae yn dal i fod angen ariannu gan y llywodraeth, er ennill y Wobr Hawl i Chwarae, er mwyn sicrhau y gellir gwella mynediad i chwarae ym mhob ardal o Gymru. Fe wnaeth Keith Towler ddatgan yn glir, pan ddaw darparu cyfleoedd chwarae digonol yn ddyletswydd cyfreithiol, y bydd yn gwneud yn siŵr bod y sector chwarae'n gwneud popeth posibl i sicrhau ei bod yn ymateb i'r ddyletswydd yma.

Chwarae, Chwarae a Chwarae Rhagor: Gadewch i Blant fod yr Anifeiliaid y Maent â Hawl i Fod



Yma, mae'r Athro Marc Bekoff, sy'n arbenigwr ar ymddygiad anifeiliaid, yn ysgrifennu am ei brofiadau a'r dysg a enillodd fel un o brif siaradwyr gwadd cynhadledd 2011 yr IPA yng Nghaerdydd.

'Gwell asgwrn wedi ei dorri nac ysbryd wedi ei dorri'

Rwyf newydd gael y pleser o fynychu cynhadledd anhygoel yng Nghymru sef Chwarae i'r Dyfodol – goroesi a ffynnu. Prif thema'r cynulliad rhyngwladol yma oedd pwysigrwydd chwarae i blant a'r modd y gallwn greu dyfodol ble y caiff chwarae ei werthfawrogi a ble y bydd pob gwlad a chymdogaeth yn cynnal hawl pob plentyn i ryddid ac amgylchedd sy'n ddigon diogel ar gyfer chwarae (fel y dylent). Roedd y 500 o gyfranogwyr o 37 o wledydd yn llawn ysbrydoliaeth, rhai ohonynt o fannau tlawd ble na fydd plant yn chwarae oherwydd eu bod yn ddirifol wael, oherwydd na all eu rhieni, eu teuluoedd neu eu cymunedau fforddio i ganiatáu iddynt chwarae gan fod raid i'r plant weithio, neu oherwydd nad oes unrhyw fannau diogel i chwarae. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd bod chwarae'n cael ei gyfyngu'n sylweddol mewn ardaloedd cefnog trwy'r byd.

Cefais fy syfrdanu bod hyd yn oed angen cynhadledd neu fudiad o'r fath â Chwarae Cymru – er mwyn i blant cael bod yn blant.

Roedd fy nghromlin dysgu'n un fertigol, fel dieithryn oedd yno i siarad am yr hyn y gallwn ei ddysgu am chwarae bodau dynol o'r hyn a wyddom am chwarae anifeiliaid. Wedi'r cyfan, rydym ni fodau dynol yn famaliaid ag ymennydd mawr, gaiff eu geni'n ddiymadferth ac angen gofal sylweddol gan oedolion, fydd yn dysgu amrywiol sgiliau goroesi trwy wahanol fathau o chwarae. Mae llawer o'r hyn sy'n gymwys i ddatblygiad cymdeithasol mamaliaid sydd ddim yn fodau dynol, yn gymwys i ninnau hefyd.

Bydd astudiaeth ymddygiad chwareus mewn anifeiliaid yn dweud llawer wrthym am yr hyn y mae plant dynol ei angen. Yn syml, gallwn ddysgu'r amrywiol resymau pam y bydd anifeiliaid yn chwarae (pam y mae wedi esblygu a datblygu yn y modd yma) yn cynnwys datblygiad cymdeithasol a chymdeithasu, ymarfer corff, datblygiad gwybyddol, ac hefyd ar gyfer dysgu sgiliau cymdeithasol sy'n ymwneud â thegwch a chydweithrediad. Er enghraifft, mae'r rheolau sylfaenol ar gyfer chwarae teg rhwng anifeiliaid yn wir hefyd ar gyfer bodau dynol, sef: gofynnwch yn gyntaf, byddwch yn onest, cadwch at y rheolau, a cyfaddefwch eich bod yn anghywir. Pan gaiff rheolau chwarae eu torri, a phan fydd tegwch yn chwalu, bydd chwarae'n chwalu hefyd.

Gall chwarae fod yn bwysig hefyd fel 'hyfforddiant ar gyfer yr annisgwyl'. Yn seiliedig ar adolygiad eang o lenyddiaeth sydd ar gael, mae fy nghydweithwyr Marek Spinka, Ruth Newberry a minnau'n cynnig bod chwarae'n gweithredu fel modd i gynyddu hyblygrwydd symudiadau ac i ddod atoch eich hun ar ôl sioc sydyn, fel colli cydbwysedd a chwympo, ac i gyfoethogi gallu anifeiliaid i ymdopi'n emosïynol â sefyllfaoedd annisgwyl sy'n llawn straen. Rydym yn awgrymu bod anifeiliaid, er mwyn ennill yr 'hyfforddiant ar gyfer yr annisgwyl' yma, yn mynd ati'n weithredol i chwilio am a chreu sefyllfaoedd annisgwyl fel rhan o'u chwarae ac y byddant yn mynd ati'n weithredol i'w gosod eu hunain mewn sefyllfaoedd anfanteisiol. Felly, mae chwarae'n cynnwys cyfresi ble y bydd chwaraewyr yn cyfnewid yn gyflym rhwng symudiadau wedi eu rheoli, tebyg i'r rheini a ddefnyddir mewn ymddygiad 'dirifol', â symudiadau sy'n arwain at golli rheolaeth am gyfnod byr.

Yn ystod trafodaethau yn y gynhadledd yng Nghymru, fe ddywedais hefyd bod llawer gormod o fodau dynol yn y byd ac ym myd yr anifeiliaid, ble eu bod yn byw mewn niferoedd uchel ble fo adnoddau (er enghraifft, bwyd a lloches) yn brin, y bydd chwarae fel arfer yn lleihau neu'n diflannu'n llwyr. Efallai y bydd mamau (neu ofalwyr eraill) mewn ardaloedd â phoblogaeth uchel yn atal eu plant rhag chwarae er mwyn arbed egni, o'u cymharu â phobl sy'n byw mewn amgylcheddau di-straen ble y bydd chwarae'n parhau. Tra bo pennu'r

cyfyngiadau hyn yn ymddangos yn rhesymol, caiff cyfyngiadau eithafol (y byddai rhai'n eu galw'n afresymol) ar chwarae mewn plant eu gweld nid yn unig mewn cymdogaethau a gwledydd tlawd, ond hefyd mewn mannau lle y ceir digonedd o adnoddau.

Wrth imi wrando ar bapur ar ôl papur yn cael eu cyflwyno, dechreuais bryderu am effeithiau tymor hir cenhedlaeth (neu genedlaethau) di-chwarae: Allwn ni oresgyn hyn? A fydd digon o fomentwm fel bod gwahanol lwybrau datblygiadol, sy'n cynnwys llai o chwarae, yn tyfu'n batrymau sy'n esblygu dros amser? Sut gyrhaeddodd ni i'r sefyllfa yma, ble nad ydyn ni'n gadael i blant fod yn blant? Pa hawl sydd gennym ni i ddwyn plentyndod oddi ar ein plant?

Mae nifer o resymau pam fod angen i blant chwarae, yn union fel y mae angen i anifeiliaid ifainc chwarae. Rydym angen plant sy'n crwydro'n rhydd. Mae'n rhaid inni ganiatáu iddynt faeddu a dysgu i fentro a llywio perthnasau cymdeithasol all fod yn gymhleth, yn annisgwyl, neu'n anrhagweladwy. Rwyf wrth fy modd gyda slogan Chwarae Cymru, 'Gwell asgwrn wedi ei dorri nag ysbryd wedi ei dorri', a briodolwyd i'r Fonesig Allen o Hurtwood. Dylai pob un ohonom ei arddel yn llwyr.

Fel y mae William Crain y seicolegydd yn dadlau'n rymus, mae angen inni adael i blant adennill eu plentyndod a gadael i blant fod yn blant.

Dewch inni 'ail-wylltio' plant y byd. Gadewch iddyn nhw chwarae a gadewch iddyn nhw gael eu plentyndod.

Wrth gwrs, mae angen i oedolion hefyd chwarae mwy, ond mater arall yw hynny!

Cyhoeddir yr erthygl hon â chaniatâd yr awdur ac fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol ar flog Marc ar wefan Psychology Today: www.psychologytoday.com/blog/animal-emotions

Gweler cyflwyniad allweddol Marc ar wefan IPA 2011 ynghyd â sgyrsiau a ffilmiau eraill ar YouTube

P³ – Cynnydd ar hyfforddiant chwarae chwyldroadol

Yma mae Tillie Mobbs, ein Cyfarwyddwraig Gynorthwyol (Datblygu'r Gweithlu) yn ateb rhywfaint o gwestiynau...

C: Mae cymhwyster Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) Lefel 2 wedi bod ar y rhestr o gymwysterau a gymeradwywyd ers peth amser bellach. Sut mae pethau'n mynd?

A: Rydym wedi trosglwyddo 12 cwrs dros yr haf yng Ngogledd a De Cymru, ac mae mwy wedi eu trefnu.

Mae'r Prosiect Manpower cyntaf yn cael ei gynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr – mae cynorthwywyr dosbarth yn dilyn cymhwyster Gwobr P³ ynghyd â chysiau eraill, fel cymorth cyntaf a codi a chario. Byddant yn cael cynnig lleoliadau gwaith gyda rhodwyr chwarae ar draws Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

Y coleg cyntaf i weithio gyda ni ar drosglwyddo P³ yw Coleg Ystrad Mynach: gall dysgwyr ddilyn cwrs ble y byddant yn symud ymlaen i Ddiploma P³ ar Lefel 2, wedi ei gyfuno ag Ysgolion Coedwig a rhywfaint o hyfforddiant blynyddoedd cynnar.

Cafwyd diddordeb rhyngwladol yn P³ gan gyfranogwyr yng nghynhadledd fyd-eang yr IPA – maent yn ei ystyried yn llawer mwy addas at bwrpas na hyfforddiant sydd ar gael yn eu gwledydd ar hyn o bryd – felly rydym yn archwilio allforio ein hud hyfforddiant chwarae Cymreig i Frasil a'r Iseldiroedd.

C: Newydd gwych, o'r diwedd mae Chwarae Cymru'n gallu dechrau datblygu'r cam nesaf – P³ Lefel 3 – pwy sydd ynghlwm â'r gwaith yma?

A: Mae Richard Trew yn ôl wrth y llyw fel ein Swyddog Prosiect dros Gymwysterau, fe wnaeth gyfrannu'n helaeth at lwyddiant cyrsiau a deunyddiau Lefel 2. Mae'r Scottish Qualifications Authority yn bartner allweddol a SkillsActive, wnaeth ddyfarnu'n cytundeb i Chwarae Cymru, fydd yn goruchwyllo'r prosiect. Mae cyfranwyr allweddol eraill yn cynnwys:

Tanny Stobart, arbenigwraig addysg a hyfforddiant creadigol, sy'n meddu ar hanes maith o ddatblygu cymwysterau gwaith chwarae (ac mae'n dweud mai dyma'r gorau y mae wedi bod yn rhan ohono erioed);

Di Murray, y bydd ei harbenigedd wrth drosglwyddo cyfleoedd chwarae cynhwysol yn amhrisiadwy ar gyfer cymhwyster sydd wedi ei wreiddio mewn arfer cynhwysol;

Jackie Kilvington, ymgynghorydd gwaith chwarae ac awdlur medrus;

Ali Wood, sy'n arbenigwraig ar ddylunio ac asesu cymwysterau Gwaith Chwarae ac sydd â hanes maith o hyrwyddo arfer da wrth ddiogelu plant;

a'r Dr Fraser Brown o Brifysgol Metropolitan Leeds, sef golygydd technegol y deunyddiau – fydd yn sicrhau bod yr holl ddamcaniaethau chwarae a gwaith chwarae'n cyrraedd y nod. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys: *Foundations of Playwork* (2008, gyda Chris Taylor); *Children Without Play* (2005); *Playwork: Theory and Practice* (2003); a *School Playgrounds* (1990).

C: Beth yw'r cynllun ar gyfer Lefel 3?

A: Rydym wrthi'n cynnal ymgynghoriad ar amlinellid y cymhwyster a'r canlyniadau dysgu disgwyledig – er mwyn sicrhau eu bod yn ateb anghenion pobl sy'n darparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yng Nghymru. Os aiff popeth yn iawn, fe fydd ar y fframwaith erbyn diwedd mis Rhagfyr – golyga hyn y bydd yn gymhwyster a gymeradwywyd ac y bydd y cyrsiau'n gymwys ar gyfer ariannu cyhoeddus. Rydym wrthi'n ysgrifennu deunyddiau'r cwrs ar hyn o bryd.

C: Pa wahaniaeth wnaiff P³ Lefel 3 yng Nghymru?

A: Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith yw'r dewis cyntaf ar gyfer llawer o gyflogwyr sy'n trosglwyddo cyfleoedd chwarae yng Nghymru. Byddant yn dewis P³ gan ei fod, yn gwbwl unigryw, wedi ei seilio ar hawl plant i chwarae, yr Egwyddorion Gwaith Chwarae,

eiriolaeth, cynhwysiant a'r wybodaeth ddiweddaraf am anghenion plant sy'n chwarae. Tra bo cymwysterau P³ yn cwmpasu popeth y dylid ei wybod er mwyn hyrwyddo arfer gorau wrth weithio â phlant – y plentyn yn chwarae ddaw gyntaf.

Golyga ein rhwydwaith o hyfforddwyr P³ nad oes angen i gyflogwyr ddibynnu ar golegau Addysg Bellach am hyfforddiant Lefel 3 ac y gallant drefnu cyrsiau i weddu i'w anghenion eu hunain.

Mae tystiolaeth o'r manau ble y defnyddir gwaith chwarae P³ Lefel 2 – tystiolaeth plant, rhieni, gweithwyr chwarae a chyflogwyr – yn nodi y gellir gweld y gwahaniaeth P³ yn ansawdd profiadau plant sy'n chwarae.

Dysgwch fwy am pam y bydd dysgwyr a chyflogwyr yn dewis cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ar www.chwaraecymru.org.uk ar dudalennau P³. Mynnwch air gyda Tillie Mobbs am gymwysterau P³ (tillie@playwales.org.uk neu 029 2048 6050)

Ymgynghoriad datblygu Lefel 3 P³

Er mwyn cefnogi datblygiad y cymhwyster newydd, cyffrous hwn rydym wedi cynnal ymgynghoriad â chyflogwyr ar y strwythur arfaethedig ar gyfer y cymhwyster newydd gan ddefnyddio arolwg arlein – diolch i bawb wnaeth ymateb.

Mae ail ran y broses ymgynghori'n cynnwys dau ddigwyddiad ymgynghori ym mis Hydref:

Stadiwm Liberty, Abertawe
19 Hydref

Y Gyfnewidfa, Hen Golwyn
20 Hydref

Yn ogystal, bydd y digwyddiadau ymgynghori'n cynnwys cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy 'Cynhwysiant a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae' a hwylusir gan Di Murray, Playworks UK

Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle cysylltwch â Chwarae Cymru: 029 2048 6050 neu post@chwaraecymru.org.uk



Pam ymuno â Chwarae Cymru?

Mae chwarae'n bwysig i bob plentyn ac yn bwysig i'n cymunedau i gyd. Fel yr elusen genedlaethol dros chwarae plant, mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo hawl pob plentyn a pherson ifanc i chwarae ac i gyfranogi yn eu cymuned leol fel rhan o'u bywyd bob dydd – rydym yn gweithio'n galed i wneud Cymru'n le gwell i chwarae. Dysgwch fwy am ein gwaith ar www.chwaraecymru.org.uk

Po fwyaf o leisiau sy'n ymuno â ni i gefnogi hawl plant i chwarae, y cryfaf y byddwn. Trwy ddod yn aelod o Chwarae Cymru gallwch ychwanegu eich llais a chryfhau'r floedd.

Yn 2011 enillodd Chwarae Cymru Wobr Hawl i Chwarae yr International Play Association ar ran pawb sy'n gweithio tuag at weld Cymru'n tyfu'n fan chwarae-gyfeillgar. Pan dderbyniodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, y Wobr dywedodd:

Mae'r ffaith mai dyma'r tro cyntaf i'r wobwr ryngwladol arobryn yma gael ei chyflwyno i wlad gyfan yn anrhydedd fawr. Hoffwn ddiolch i'r holl fudiadau ac i bob person y mae eu hegni a'u hymrwymiad wedi cyfrannu tuag at weld Cymru'n ennill y wobwr yma.



Byddwn yn:

- eich hysbysu ynghylch ymgynghoriadau allweddol ac yn gofyn am eich cyfraniad ar gyfer ein hymatebion
- eich hysbysu am ddatblygiadau a gwaith ymchwil newydd
- rhoi gostyngiad ichi ar brisiau mynediad i ddiwydiadau Chwarae Cymru ac yn rhoi pris arbennig ichi ar gyhoeddiadau Chwarae Cymru
- eich galluogi i drefnu gwiriadau gyda'r Biwro Cofnodion Troseddol yn rhad ac am ddim ar gyfer staff sy'n gweithio mewn darpariaeth chwarae rheoledig

Fel aelod gallwch:

- ymuno â'r ymgyrch i wneud Cymru'n le mwy chwarae-gyfeillgar
- helpu i hysbysu ein safbwynt a dylanwadu ar ein gwaith gyda'r llywodraeth ac asiantaethau eraill
- atgyfnerthu ein safbwynt pan fyddwn yn lobbio am newid
- ein helpu i werthuso ein effeithlonrwydd
- enwebu a chael eich enwebu i Fwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

Gofynnir i bob aelod gefnogi:

- yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, a
 - Pholisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru
- (gweler y ddau ar ein gwefan)

Mae aelodaeth cyswllt ar gyfer 2012 yn agored i bob sefydliad ac unigolyn sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru.

Mae aelodaeth cyswllt rhyngwladol yn agored i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n byw neu'n gweithio y tu allan i Gymru – mae buddiannau aelodaeth yn gyfyngedig gan mai Cymru yw ein hardal gofrestredig o fudd elusennol.

Ymunwch â ni

trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen gofrestru sydd ar gael ar ein gwefan: www.chwaraecymru.org.uk